**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1133
Ein cyf/Our ref KW/00717/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

2 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynghylch Deiseb P-05-1133 a gyflwynwyd gan Tracey Jones.

Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE) wedi cael ei diwygio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe wnaeth Addysgu Athrawon Yfory https://llyw.cymru/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-2015-addysgu-athrawon-yfory nodi’r angen i ddiwygio cynnwys rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon a’r ffordd y maent yn cael eu darparu. Nod hyn oedd paratoi athrawon dan hyfforddiant i gefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru a mynd i'r afael â'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn datblygu athrawon y dyfodol i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Mae'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen ac maent yn gosod y fframwaith ar gyfer datblygu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon. O’r herwydd, nid ydym yn argymell nac yn pennu’r cynnwys penodol sydd ei angen i fodloni'r meini prawf hyn. Gellir gweld y meini prawf yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf

Mae achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yn broses annibynnol a gynhelir gan Gyngor y Gweithlu Addysg drwy'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, sy'n penderfynu a yw rhaglen arfaethedig yn mynd i'r afael â meini prawf achredu ac yn bodloni'r weledigaeth ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru.

O fewn y meini prawf mae'n ofynnol i raglenni roi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol gyfoes, yn ogystal â chael mewnwelediad ymarferol i’r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn datblygu ac yn dysgu. Dylai hyn, ymysg pethau eraill, gynnwys:

- datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


- sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu
- y ffactorau a all hybu neu atal dysgu effeithiol gan gynnwys effaith cefndiroedd, hunaniaeth, gwerthoedd a chredoau dysgwyr
- yr angen i ddarparu ar gyfer datblygiad holistaidd y dysgwr
- pa mor ganolog yw llesiant i ddysgu effeithiol

I gefnogi hyn rydym wedi comisiynu ein partneriaid mewn Prifysgolion i ddatblygu modiwlau cyfoethogi y bydd myfyrwyr rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon a’r rheini sydd eisoes yn ymarferwyr yn gallu cael gafael arnynt. Bydd y modiwlau hyn ar gael yn fuan a byddant yn mynd i'r afael â’r canlynol:

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Llesiant – trosolwg o adnoddau
- Rôl y Cynorthwyydd Addysgu wrth gefnogi llesiant y dysgwyr
- Modelu dulliau o ymgysylltu â llesiant ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel clwstwr
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cael mynediad at wasanaethau a mapio darpariaeth
- Llesiant emosiynol a meddyliol
- Arweinyddiaeth ar gyfer llesiant athrawon
- Ymddygiad
- Datblygiad plant
- Niwroddatblygiad ac addysgeg

Gyda'i gilydd, ar y cyd â hyfforddiant arall sydd ar gael, mae'r mesurau hyn wedi'u llunio i baratoi'r gweithlu i allu deall datblygiad dysgwyr a'u helpu i feithrin gwydnwch wrth ymateb i'r heriau y byddant yn eu hwynebu.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education